# Croeso i/ *Welcome to*

# Ysgol Llangynnwr
# *Llangunnor School*

01267 237841

admin@llangunnor.ysgolccc.org.uk
www.llangunnor.amdro.org.uk



# Paratoi eich plentyn i fynd i'r ysgol

Bydd dechrau'r ysgol yn brofiad hapusach os gall eich plentyn wneud ffrindiau a rhannu teganau.

Anogwch eich plentyn i fod yn annibynnol –

- wrth fynd i'r tŷ bach
- wrth olchi a sychu dwylo
- i adnabod ei got/chot
- wrth wisgo
- wrth ddefnyddio cyllell a fforc
- wrth dacluso teganau, gemau a llyfrau

**Dylai enw'r plentyn fod ar bopeth sy'n perthyn iddo/iddi!!**

Siaradwch yn gadarnhaol â'ch plentyn am ddechrau'r ysgol:-

- wrth fynd allan i siopa
- wrth deithio yn y car
- wrth edrych ar lyfrau
- wrth fynd i'r gwely

## ***Preparing your child for school***

*Starting school will be a happier experience if your child can make friends and share toys.*

*Encourage your child to be independent –*

- *when using the toilet*
- *when washing and drying hands*
- *by recognising his/her coat*
- *when getting dressed*
- *by using a knife and fork*
- *when putting away toys, games and books*

***Your child's belongings should be clearly labelled with his/her name!!***

*Talk positively to your child about starting school:-*

- *when out shopping*
- *when travelling in the car*
- *when looking at books*
- *and at bed time*

# <u>Y Cyfnod Sylfaen</u>

Mae'r plant oed 3 – 7 yn dysgu drwy chwarae strwythedig. Dyma'r Meysydd Dysgu;

- Datblygiad Personol, Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Datblygiad Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.
- Datblygiad Mathemategol.
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.
- Datblygiad Creadigol.
- Datblygiad Corfforol.
- Addysg Grefyddol

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ei hymgorffori i mewn i'r Cwricwlwm Cyfnod Sylfaen ac mae'r sgiliau yma yn cael eu bwrw ym mhob Maes Dysgu.
Mae'r plant hefyd yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau TGCh a Meddwl ym mhob Maes Dysgu.



# <u>*The Foundation Phase*</u>

*All pupils aged between 3 and 7 years old learn through structured play. These are the Areas of Learning;*

- *Personal and Social Development*
- *Language, Literacy and Communication*
- *Mathematical Development*
- *Knowledge and Understanding of the World*
- *Creative Development*
- *Physical Development*
- *Religious Education*

*The Literacy and Numeracy Framework is incorporated into the Foundation Phase Curriculum and these skills are developed across all Areas of Learning. The children also develop ICT skills and Thinking skills in all Areas of Learning.*

**Pan fydd plant yn dechrau'r ysgol maent yn cael amrywiaeth eang o weithgareddau pwrpasol i'w helpu i ddatblygu. Yn eu plith mae:-**

***When children start school they are given a whole range of purpose play and activities which help them to develop. These include:-***

Peintio, modelu, torri a gludo. *Painting, modelling, cutting and sticking.*





Gweithgareddau TGCh. *ICT activities.*





Gweithgareddau yn y dŵr a'r tywod.
*Activities in the sand and water.*



Chwarae rôl, gwisgo i fyny, adeiladu a choginio.
*Role play, dressing up, construction and cooking.*




Gwrando ar straeon ac edrych ar lyfrau.
*Listening to stories and Looking at books.*

Canu, symud a pherfformio.
Singing, movement and performing.





Chwarae a dysgu yn yr awyr agored. *Outdoor learning.*





# Drwy chwarae bydd eich plentyn yn datblygu:
# *Through play your child will develop:*

**SGILIAU PERSONOL A CHYMDEITHASOL**

Dysgu byw, gweithio a chwarae gydag eraill mewn ffordd dderbyniol. Gwneud ffrindiau, cydweithredu, cymryd tro, rhannu a gofalu am eraill. Gwisgo'u hunain, defnyddio'r tŷ bach, a bod yn ymwybodol o lendid.

***PERSONAL AND SOCIAL SKILLS***

*Learning to live, work and play with others in an acceptable way. Making friends, co-operating, taking turns, sharing and caring for others. Dressing themselves, using the toilet and being aware of hygiene.*







**IAITH, LLYTHRENNEDD A SGILIAU CYFATHREBU**

Dysgu gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae'n bwysig rhoi amser i siarad â phlant a hefyd i wrando arnyn nhw yn siarad. Mae plant yn mwynhau gwrando ar storïau, hwiangerddi, rhigymau a chaneuon. Gallwn ddatblygu hoffter o lyfrau yn gynnar iawn.

***LANGUAGE, LITERACY AND COMMUNICATION SKILLS***


*Learning to listen, talk, read and write. It is important to talk to your children, but it is also important to listen to what they have to say. Children enjoy listening to stories, nursery rhymes and songs. A love of books can be developed from a very young age.*

**SGILIAU MATHEMATEGOL**

Datrys, cyfathrebu a rhesymu yn fathemategol i ddidoli, cyfateb, trefnu, cymharu a chyfrif pethau cyfarwydd, fel gosod y bwrdd. Dysgu cofio rhigymau, caneuon, storïau a gemau cyfrif. Dysgu am fesurau ac arian, siâp, safle ac amser.

**MATHEMATICAL SKILLS**

*Solving, communicating and reasoning mathematically.*
*Learning to sort, match, order, sequence, compare and count familiar objects, for instance, laying the table. Learning about measurers and money, shape, position and movement. Recalling a range of number rhymes, songs, stories and counting games.*














**GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH O'R BYD**

Dysgu am amser, eu hunain, pobl eraill, pethau byw eraill, lleoedd a phethau nad ydynt yn fyw.

***KNOWLEDGE AND UNDERSTANDING OF THE WORLD***

*Learning about time, themselves, other people, other living things, places and non living things.*

**SGILIAU CORFFOROL**


Sgiliau echddygol bras:
Mae rheolaeth plant a'u cydsymud ar eu sgiliau echddygol bras yn datblygu drwy symudiadau sy'n cynnwys defnyddio cyhyrau yn y corff, y coesau a'r breichiau.
Sgiliau llawdrin manwl:-
Bydd plant yn datblygu sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad drwy drafod amrywiaeth eang o adnoddau, gan gynnwys:
toes, clai, peintio – â brwshys bras i ddechrau ac wedyn rhai teneuach, posau jig-so, patrymau pegiau, amrywiaeth o offer i bwytho a gwehyddu i enwi ond rhai.

***PHYSICAL SKILLS***

*Gross motor skills:*
*Children's control and coordination of their gross motor skills develops through movement that involves the use of muscles in the body, legs and arms.*
*Fine motor skills:*
*As children's small muscles (including eye muscles) mature, hand-eye coordination will develop. Hand-eye coordination is a prerequisite for being able to hold a pencil properly to make marks on paper and later produce precise writing patterns, letters and numbers.*
*Children will develop fine manipulative skills and hand-eye coordination by handling a wide range of resources, including:*
*playdough, clay, painting – first with large brushes and then with finer ones, jigsaw puzzles, peg patterns, a range of equipment for threading and weaving to name but a few.*













**SGILIAU CREADIGOL**

Dysgu am liwiau a synau trwy greu cerddoriaeth, peintio a thynnu llun. Cael profiadau symud a dawns, a defnyddio'u dychymyg trwy wisgo lan a chwarae rôl.

***CREATIVE SKILLS***

*Learning about colour and sound, through music-making, painting and drawing. Having movement and dance experiences and using their imaginations through dressing up and taking part in role-play.*













# Y Diwrnod Ysgol
# *The School Day*

**Yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yr athrawon yw Miss Guest, Miss Evans a Mrs C Rh Thomas gyda chynorthwywyr dysgu lefel uwch yn gweddu i'r cymhareb o 1 oedolyn i 10 o blant.**
**Wrth i ni ddechrau'r ysgol Miss Guest fydd ein hathrawes yn Dosbarth Dewi.**
**Am y ddau dymor cyntaf fe fydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol fel disgybl rhan amser. Yn ystod y tymor cyntaf fe fydd eich plentyn yn dechrau'r sesiwn am 12.30yp, gan fynd adref am 3.00yp. Mae'r ail dymor yn sesiwn fore, felly o 9.00yb tan 11.30yp, sef cyn cinio. Mae'r ysgol yn agor am 8.50yb.**
**Yn y trydydd tymor, bydd eich plentyn yn cael aros yn yr ysgol drwy'r dydd, sef o 9.00yb tan 3.00yp.**

***In the Nursery and Reception classes in the Foundation Phase in Llangunnor School the teachers are Miss Guest, Miss Evans and Mrs C Rh Thomas, with enough high level teaching assistants to adhere to the recommended ratio of 1 adult to 10 children.***
***During the first two terms, your child will attend school for half a day; the first term will be an afternoon session. This will be from 12.30pm until 3.00pm. The second term will be a morning session, this will be from 9.00am until 11.30pm***
***School will open at 8.50am.***
***Pupils come to school all day in their third term, from 9.00am until 3.00pm.***




# Gwisg Ysgol
# School Uniform

Mae gennym wisg ysgol, a chrysau T ar gyfer ymarfer corff. Mae'r wisg ar werth yn siop Evans a Wilkins.
Fe fydd y staff yn eich hysbysu o lliw tîm chwaraeon eich plentyn yn ystod yr wythnos cyntaf.

*We have a school uniform and PE T-shirts. Our school uniform is for sale at the Evans and Wilkins shop.*
*You will be informed of your child's sports team colour during their first week at school.*







# Diwrnod Ymarfer Corff
# PE Day

Pan gawn ymarfer corff ar **fore ddydd Mercher**, mae angen gwisgo:-

- Trowsus ymarfer neu trowsus byr
- Crys T (lliw'r tîm)
- Esgidiau rhedeg

Rhaid cofio dod â gwisg ysgol mewn bag er mwyn newid ar ôl y wers, pan fyddwn ni'n aros drwy'r dydd

*When we have PE lessons on **Wednesday mornings** we need:-*

- *Joggers or Shorts*
- *T shirt (sports team colour)*
- *Trainers*

*We must remember to bring our school uniform in a bag so that we can change after the lesson, when we stay in school all day.*

# **Bwyd a Dïod**
## ***Food and Drink.***

I dalu am ginio ysgol eich plentyn, fe fydd angen i chi ymaelodu i'r system 'ParentPay' – manylion pellach i ddilyn.

Mae llaeth am ddim ar ein cyfer bob dydd a medrwn cael dïod o ddwr unrhywbryd.

*Payment for school dinners is now made through the' ParentPay' system. Further information will be shared with you in due course.*

*We have free milk everyday at school and water is available throughout the day.*



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Clybiau Gofal
# *Childcare Clubs*

Yn yr ysgol mae clwb gofal ar ôl ysgol o'r enw 'Clwb Cynnwr', sy'n cael ei redeg gan ein gweinyddesau profiadol.

Mae clwb Brecwast yn cael ei redeg yn ddyddiol yn neuadd yr ysgol yn rhad ac am ddim. Mae'r drysau'n agor am 8 yb ac yn cau am 8.30yb.

Erbyn hyn mae gennym ni glwb gofal yn ystod y gwyliau o'r enw '*Happy Days*' sydd yn cael ei redeg gan un o weinyddesau'r ysgol.

*In our school we also have an after school club called 'Clwb Cynnwr', which is run by our experienced LSAs. There is an application form enclosed in your pack.*

*We also have a daily Breakfast club in the school hall, which is free. Doors open at 8am and close at 8.30am.*

*We also offer a holiday club, called 'Happy Days' which is run by one of our experienced LSAs.*

## Edrychwn ymlaen at groesawu eich plentyn i'r ysgol.

## We look forward to welcoming your child to school.






**Mr Aled Davie**
**Pennaeth**
***Headteacher***

**Mrs Caron Rh Thomas**
**Pennaeth Cynorthwyol**
***Assistant Headteacher***

**Mrs Catrin Thomas**
**Pennaeth Cynorthwyol**
***Assistant Headteacher***

**Miss Jodie Guest**
**Athrawes Dosbarth Dewi**
***Dewi Class Teacher***